



RCS



Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC

Adroddiad Interim Cam 3: Crynodeb Weithredol

30 Mehefin 2021

1. Diben

1.1. Mae'r grynoded hon yn cyflwyno'r canlyniadau sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil gwerthuso cam tri Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (AIF) a gyflwynir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Comisiynwyd y cam hwn ym mis Mehefin 2020, gyda'r adroddiad terfynol i'w gyflwyno ym mis Medi 2022. Mae'r gwaith hefyd yn ystyried y gwerthusiad a wnaed o gamau un a dau a redodd rhwng Rhagfyr 2016 a Mawrth 2020. Mae'r canfyddiadau sydd wedi dod i'r golwg felly yn ganlyniad i 4.5 mlynedd o waith ymchwil. Serch newidiadau gweithredol, mae hanfodion yr AIF wedi parhau'n gyson dros y cyfnod hwnnw.

2. Cyd-destun

2.1. Mae'r AIF yn cyllido mudiadau i gefnogi pobl sy'n wynebu neu'n parhau i wynebu heriau mawr i'w helpu i symud tuag at waith, neu i ddarparu profiad gwaith ar eu cyfer ac, i'r rheini sy'n barod, i'w helpu i ddod o hyd i gyflogaeth fwy hirdymor. Mae'r AIF yn seiliedig ar y gred gadarn fod dod o hyd i gyflogaeth addas a'i chadw yn fodd o helpu pobl i ddod allan o dlodi a chyflawni canlyniadau bywyd gwell. Mae'r buddion uniongyrchol yn ymwneud â llesiant unigolion, ond maen nhw'n ymestyn i deuluoedd, cymunedau, cymdeithas Cymru a'r economi ehangach.

2.2. Mae'r AIF yn elfen hyblyg mewn rhaglenni cyflogadwyedd Cymru sy'n meithrin arloesedd, dulliau gweithredu ymatebol lleol a chymorth wedi'i deilwra. Yn ymarferol, mae'r AIF yn cyfuno cymorth cyflogadwyedd, lles a llesiant er mwyn mynd i'r afael â sgiliau meddal a sgiliau bywyd angenrheidiol a rhoi pobl ar lwybr at, ac i mewn i, gyflogaeth. Mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella llesiant cymdeithasol yng Nghymru a chael cyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar yr hirdymor a gweithio'n well gyda'i gilydd yn gosod cyd-destun strategol clir.

Y Briff Gwerthuso

2.3. Nod y briff yw dysgu am yr hyn sy'n gweithio i lywio polisiau a rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol a nodau lles a llesiant cysylltiedig er mwyn cyrraedd pobl 'anodd eu cyrraedd'. Er bod angen asesiad terfynol o berfformiad yr AIF, wrth ei chraidd mae set o gwestiynau strategol rhyng-gysylltiedig. Nod y cwestiynau yw asesu:

- a. Buddion a Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi yr AIF, sut mae'r AIF yn 'cyd-fynd' â rhaglenni prif ffrwd, ac i ba raddau y gellir integreiddio nodau llesiant a lles er mwyn rhoi'r cymorth gorau i bobl sy'n wynebu heriau.
- b. Sut mae'r AIF wedi bodloni amcanion thema drawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop a phennu 'beth sy'n gweithio', gan gynnwys cydnabod dewisiadau iaith.

c. 'Beth sy'n gweithio' o ran paru pobl a'u hamgylchiadau â chyfleoedd ar draws economi amrywiol a newidiol yng Nghymru a daearyddiaeth economaidd amrywiol.

ch. Gwerthuso effeithiolrwydd yr AIF o ran cyflawni targedau a nodau ers ei lansiad yn 2015.

d. Datblygu rhesymeg ymyrryd ymhellach fel fframwaith trosfwaol er mwyn llywio sut y gall trefniadau yn y dyfodol gynorthwyo pobl 'anodd eu cyrraedd' orau.

Methodoleg

2.4. Mae'r gwerthusiad yn cymysgu dulliau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys ymgysylltu'n eang â mudiadau a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gwerthusiad wedi'i ddylunio i allu cael ei addasu i fodloni gofynion ac ansicrwydd COVID-19.

3. Prif Ganfyddiadau

3.1. Fel elfen hyblyg ym mholisiau cyflogadwyedd Cymru, mae gan yr AIF werth arbennig o ran galluogi cymorth wedi'i deilwra'n sylweddol i ddiwallu anghenion unigolion â heriau lle na all anghenion o'r fath gael eu diwallu'n llawn gan ddulliau sefydliadol mwy o faint. Mae hefyd yn dangos gwerth ymgysylltu ag amrediad eang o gyrff, gan gynnwys llawer yn y trydydd sector sydd â'r un ehangder o sgiliau a phrofiad o gynorthwyo unigolion a grwpiau amrywiol y gall rhaglenni sefydliadol mwy o faint eu hystyried yn bobl 'anodd eu cyrraedd'.

3.2. **Cyrraedd grwpiau ac unigolion a dargedir:** mae canfyddiadau cam tri yn cefnogi casgliadau cynharach. Mae ymdeimlad parhaus fod yr AIF yn cyrraedd y rheini a dargedir a'i bod yn 'gwneud gwahaniaeth', ac rydyn ni wedi profi ymdeimlad go iawn o falchder ymhlith y rheini a gafodd ddyfarniadau yn yr hyn y maen nhw'n eu cyflawni.

3.3. **Gweinyddiaeth a systemau:** Yn y bôn, yr un yw'r system AIF â'r hyn a weithredwyd yng nghan un a dau, a gwnaethom wynebu rhwystredigaethau tebyg gyda'r gofynion gweinyddol a'r broses sydd wedi'u dylunio i gadw at reolau cyllido'r Undeb Ewropeaidd, er eu bod wedi'u lleddfu diolch i staff CGGC, yn enwedig wrth gefnogi a helpu buddiolwyr yn ystod pandemig COVID-19. O ganlyniad i brofiad COVID-19 a Brexit, mae chyfleoedd i adolygu prosesau a'u symleiddio ar gyfer unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Mewn egwyddor, dylai systemau fod yn gymesur â lefel y dyfarniadau grant a wneir ac mae dyfarniadau'r AIF yn gymharol fach o'u cymharu â chynlluniau grant eraill.

3.4. **Rôl y Trydydd Sector:** Awgryma'r gwaith gwerthuso dros 4.5 mlynedd fod consensws eang y dylai'r trydydd sector gael rôl barhaus mewn rhaglenni cyflogadwyedd a'r gwerth a gyflwynir gan hyn, a bod angen rhywbeth tebyg

i'r AIF yn y dyfodol. Gwnaeth y gwerthusiad o gam tri amlygu pryderon penodol ynghylch argaeledd adnoddau yn y dyfodol a phryder y gallai'r bobl hynny sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol 'syrthio drwy'r bylchau' mewn trefniadau yn y dyfodol.

3.5. Mae gan y sector gwirfoddol rôl benodol mewn cysylltu â mudiadau priodol sy'n gyfarwydd â'r grwpiau neu gymunedau targed ac mae ganddo ddealltwriaeth emosiynol sy'n ymatebol i amgylchiadau ei gleientiaid. Mudiadau bach yw'r rhai dan sylw yn aml, sy'n ymrwymedig i'w grwpiau cleient ac sydd yn eu deall. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl fod y staff wedi profi amgylchiadau tebyg. Mae'r adroddiad interim llawn yn amlygu'r nodweddion a'r dulliau gweithredu sy'n gweithio wrth gynorthwyo pobl mewn amgylchiadau o'r fath.

3.6. Nodau cymorth ar gyfer pobl 'anodd eu cyrraedd / na chânt eu clywed yn aml': Mae llawer o'r rheini a dargedir yn cael budd o gymorth, ond maen nhw'n parhau i fod yn bell o gyfranogi yn y farchnad lafur, felly mae'n bwysig canolbwyntio ar gyflogadwyedd. Fodd bynnag, dylid atgyfnerthu hyn drwy gydnabod y dylai gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned mewn modd adeiladol sefyll ochr yn ochr â'r nodau hyn a chael eu cyfrif fel canlyniadau llwyddiannus. Awgryma hyn y dylid cael meini prawf canlyniadau sy'n canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd i unigolion a allai gynnwys cyflogaeth fwy hirdymor, ond a allai hefyd gynnwys canlyniadau lle y caiff hunangymorth neu gamau gweithredu cadarnhaol eu cyflawni y tu allan i'r farchnad lafur.

3.7. Hefyd, gall cyfranogwyr yr AIF wynebu ansicrwydd ynghylch argaeledd cyflogaeth addas. Mae hyn yn awgrymu gwerth mewn cydberthynas mwy uniongyrchol rhwng unrhyw drefniant olynol a darpar gyflogwyr er mwyn deall lle mae'r cyfleoedd a hysbysu pobl amdanynt yn well, sut i gael gafael arnynt a sut i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai atal canlyniad llwyddiannus i'r cyflogwr a'r cyflogai (gweler hefyd adran 4).

3.8. Ymgysylltu â chyfranogwyr yn fwy cyson ac yn fwy hirdymor a sicrhau mwy o gydweithrediad a rhannu data rhwng mudiadau: Awgryma ymarferiad samplu cynnar a oedd yn edrych ar gyflogadwyedd Cymru a'r dirwedd polisi a rhaglen lles a llesiant cysylltiedig fod darlun cymhleth o fentrau a mudiadau. Pan gaiff hyn ei gyfuno â natur tymor byr llawer o fentrau, nid yw'n cyd-fynd yn aml ag anghenion cymorth y rheini mewn amgylchiadau heriol sydd angen help parhaus a chyson i gyflawni ffordd o fyw mwy sefydlog a magu hyder cyn symud at sgiliau a phrofiad yn y gweithle. Nid yw ymyriadau byr heb gydlyniant gan fudiadau lluosog yn ffordd sicr o lwyddo.

3.9. Cynnal cysondeb y cysylltiad â'r cyfranogwr a'r cymorth ar ei gyfer: Fel arfer, bydd angen map llwybr wedi'i reoli a'i deilwra ar y rheini sydd wedi'u targedu gan yr AIF os mai cyflogaeth neu wirfoddoli yw'r canlyniad dymunol. Mae hyn yn cynnwys yr angen am fentora neu gymorth personol i helpu pobl i symud drwy'r camau angenrheidiol er mwyn hybu siawns y cyfranogwyr i gael budd o'r profiad hwnnw ac er mwyn i unigolyn neu fudiad yr ymddiriedir ynddo fod wrth

law i helpu os bydd rhwystrau'n dod i'r amlwg. Y nod yw adeiladu sgiliau, gallu a hyder er mwyn creu annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth. Mae hyn hefyd yn awgrymu y dylai unrhyw drefniadau yn y dyfodol fod yn fwy detholus wrth gysylltu â darparwyr cymorth priodol a gosod meini prawf sy'n profi eu gallu i gynorthwyo cyfranogwyr yn y modd penodol, wedi'i deilwra hwn.

COVID 19: Effeithiau a Dysgu

3.10. Dechreuodd Cam 3 yr AIF ym mis Hydref 2019 gyda phroffiliau targed diwygiedig. Gwnaeth COVID 19 daro 6 mis yn ddiweddarach. Nid oes syndod felly fod perfformiad yr AIF ar ei hôl hi, ond rydyn ni wedi ein synnu nad yw'r effeithiau'n fwy eithafol, gan ystyried y bobl a dargedwyd i gael cymorth a'r effaith ar economi a chymdeithas Cymru yn fwy cyffredinol. Mae CGGC wrthi'n addasu'r rhaglen a'i gosod ar y trywydd cywir eto. Nid oes 'llinyn mesur' yn bodoli i gymharu'r perfformiad yn ystod pandemig COVID 19, ond parhaodd yr AIF i fod ar waith o dan amgylchiadau heriol. Mae'r gwersi trosglwyddadwy yn ymwneud â'r canlynol:

- a. Hyblygrwydd ynghylch llacio gofynion gweinyddol yr AIF a hyblygrwydd, cyfathrebiadau ac ymgysylltu staff CGGC i helpu'r rheini a dderbyniodd grant.
- b. Gwerth gwydnwch, ystwythder a'r gallu i addasu wrth ddarparu cymorth: ychydig iawn o wahaniaethau oedd rhwng y rheini a gafodd grantiau, ond yn gyffredinol, mudiadau gwydn sy'n ymrwymedig i'w cleientiaid ac yn agos atynt oedd y rhai a lwyddodd i addasu a chynnal y cymorth orau.

3.11. Roedd ymgysylltiad llwyddiannus â chyfranogwyr yn ystod y pandemig hefyd yn ymwneud â'r canlynol:

- a. Deall yr effeithiau tebygol ar bobl sy'n agored i niwed a chynnal y cymorth hwnnw drwy addasu'n llwyddiannus, er enghraifft, newid i roi cymorth rhithiol. Gwnaeth y rheini a ddarparodd gymorth yn llwyddiannus fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, gan lwyddo i ddarparu a chynnal sicrwydd a chysylltiad yn ystod profiadau COVID 19 a oedd yn aml yn anodd: e.e. drwy fynd i'r afael â llesiant y cyfranogwr yn ogystal â chyflogadwyedd. Gwnaeth symud i roi cymorth yn rhithiol hefyd roi cipolwg ar amodau byw a thlodi'r cyfranogwr, ac mewn rhai achosion, gwnaeth hyn arwain at help ehangach (e.e. mynediad at fanciau bwyd neu ddillad).
- b. Defnyddio technoleg i gael a chynnal cysylltiad ag unigolion: Gwnaeth mudiadau llwyddiannus fynd i'r afael â thlodi digidol a llythrennedd, er enghraifft, trwy ddod o hyd i gyfarpar i gyfranogwyr, gyda buddion sy'n debygol o barhau y tu hwnt i'r pandemig. Mewn rhai achosion, roedd ymgysylltu'n rhithiol yn fodd o gynyddu cyfranogiad, er enghraifft, gyda theuluoedd yn hytrach nag unigolion, ac mewn rhai achosion, gwnaeth hwn

alluogi pobl na fyddai yn ôl pob tebyg yn cysylltu wyneb yn wyneb i gymryd rhan (e.e. o ganlyniad i ddisgwyliadau diwylliannol a threfniadau arferol).

- c. Helpu cyfranogwyr i ymhél â chymdeithas i helpu pobl eraill mewn adegau o argyfwng a chyfathrebu yn Gymraeg yn ôl dymuniad pobl fel modd o feithrin ymddiriedaeth.

3.12. Mae COVID 19 yn cyflwyno ansicrwydd ynghylch effeithiau economaidd. Gyda llai o swyddi neu leoliadau ar gael i gyfranogwyr, o leiaf yn y tymor byr, a'r effeithiau cysylltiedig posibl ar gymhellant, ynghyd â'r newid cyflymach yn y marchnadoedd cyflogaeth (e.e. y symudiad o brynu pethau ar y stryd fawr i brynu ar-lein), ond gyda chyfleoedd newydd posibl, gan gynnwys y rheini ar gyfer gweithgareddau gwirfoddol.

3.13. Mae cyfyngiadau COVID 19 wedi sbarduno neu gyflymu symudiadau sylfaenol o ran sut mae cymdeithas yn gweithredu. Dadleuir i ba raddau y bydd cymdeithas yn dychwelyd ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, noda'r mudiadau sydd wedi'u cyllido gan yr AIF mai dull gweithredu hybrid fydd y canlyniad mwyaf tebygol, sy'n dychwelyd at dulliau wyneb yn wyneb ond sydd hefyd yn integreiddio dulliau a ffyrdd o weithio digidol i raddau llawer mwy helaeth na chyn COVID 19.

4. Astudiaethau Ategol

4.1. Roedd gwaith gwerthuso cyfnod tri yn cynnwys nifer o astudiaethau ategol sydd wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad interim. Mae crynodeb byr o'r rhain isod.

Adolygiad Llenyddiaeth: Ymyriadau Lles, Llesiant a Chyflogadwyedd i'r rheini sydd bellaf o'r Farchnad Lafur.

4.2. Gwnaeth yr adolygiad hwn edrych ar y dystiolaeth a'r profiad o greu llwybrau cymorth ar gyfer y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, a gwerth dulliau integredig sy'n dwyn ynghyd nodau cyflogadwyedd, lles a llesiant.

4.3. Mae'r adolygiad yn cefnogi canfyddiadau gwerthusiad yr AIF, bod angen cymysgedd o gymorth ar y rhai mwyaf heriol sy'n ymwneud â magu hyder ac adeiladu sgiliau bywyd, cymorth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, ac yna help i fynd i mewn i'r farchnad lafur, ynghyd â chymorth ôl-gyflogaeth o bosibl i'w helpu i gynnal cyfranogiad llwyddiannus a gwella'u bywydau. Mae hefyd yn nodi bod ymyriadau cyflogadwyedd wedi tueddu i ganolbwyntio ar yr ochr gyflenwi yn y gorffennol, hynny yw ei fod, mewn egwyddor, yn 'haws' datblygu sgiliau a galluoedd i wneud pobl yn fwy addas i gyfleoedd cyflogaeth sy'n bodoli yn hytrach na chreu cyfleoedd newydd yn y farchnad i'r rheini heb waith.

4.4. Canfu'r adolygiad hwn hefyd fod ymyriadau 'Gwaith yn Gyntaf' (h.y. symud pobl i mewn i gyflogaeth cyn gynted â phosibl) yn llai effeithiol i'r rheini ag

anghenion cymhleth, oherwydd nid ydynt yn gyffredinol yn ymdrin yn ddigonol â'r rhwystrau ehangach i gyflogaeth. Awgryma'r dystiolaeth bod angen buddsoddi mewn cymorth wedi'i bersonoli er mwyn paratoi pobl i symud at waith, gydag ymyriadau sydd fel arfer yn gweithredu ar raddfa lai, yn gweithio dros gyfnod hirach o amser ac yn mynd i'r afael â'r portffolio o rwystrau a wynebir yn aml gan unigolion. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cefnogi rôl a gwerth:

- a. Systemau atgyfeirio a rhannu data cydweithredol er mwyn nodi grwpiau ac unigolion targed a'u cysylltu â chymorth priodol, ac felly, gwerth gwybodaeth ac arbenigedd lleol er mwyn cynyddu'r cyrhaeddiad.
- b. Magu ymddiriedaeth y cyfranogwyr a chyflwyno ymyriadau'n ofalus, e.e. drwy ymwybyddiaeth ac argymhellion cymunedol cadarnhaol, neu drwy unigolion a mudiadau yr ymddiriedir ynddynt: gallai pobl sydd bellaf o'r farchnad lafur fod yn gyndyn i ymgysylltu â rhaglenni cymorth cyflogaeth 'rheolaidd'. Gall hyn ymestyn i fentora gyda gweithiwr achos *cyn* y bydd unrhyw becyn cymorth penodol yn cael ei gynnig er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn barod i symud ymlaen, a bod y cymorth a ddarperir wedi'i deilwra i'w anghenion.
- c. Cymorth holistaidd, hyblyg wedi'i bersonoli: dylanwadu ar alluoedd arbenigol priodol nad ydynt yn creu gwasanaethau newydd a phwysigrwydd y cymorth sydd ar gael drwy'r sector gwirfoddol a chymdeithas sifil.
- ch. Cysylltiadau â chyflogwyr er mwyn alinio'r cymorth ag anghenion y cyflogwr a chyfleoedd gwaith addas, h.y. bod yn ymatebol i'r farchnad lafur leol a rhanbarthol er mwyn cysylltu'r cymorth â chyfleoedd cyflogaeth.

Cyfleoedd Cyflogaeth yng Nghymru: Archwiliad Cychwynnol

4.5. Mae'r trosolwg cychwynnol hwn o'r dirwedd economaidd a chyflogaeth yn cadarnhau ffactorau a gaiff eu deall yn eang yng Nghymru, fel cyflogau cyfartalog is o'i gymharu â chyflogau cyfartalog y DU, a'r prinder cymharol o swyddi â chyflogau uchel, a'r farchnad swyddi sy'n gwyro tuag at y meysydd lletygarwch, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn cyfeirio at symudiadau yn y marchnadoedd gwaith a yrrir gan ffactorau fel Brexit a COVID 19 a'r ffaith nad yw llawer o'r swyddi sydd ar gael o reidrwydd yn rhai mwy hirdymor na'n ddiogel.

4.6. Canfu'r gwerthusiad o gam un a dau yr AIF fod y mwyafrif o gyfranogwyr a oedd yn dod o hyd i gyflogaeth yn symud i swyddi lefel mynediad ar yr isafswm cyflog (dylid nodi nad yw hwn yn tanseilio gwerth y gyflogaeth honno i unigolion fel cyrhaeddiad).

4.7. Gallai tirwedd newidiol y farchnad lafur gynnig cyfleoedd os gall rhaglenni yn y dyfodol weithio gyda graen y newid hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a. Yr Economi Sylfaenol gyda ffocws polisi ar y ‘canol sydd ar goll’ o ran sefydlu mwy o gwmnïau maint canolig yng Nghymru sydd â’r ‘gallu i werthu y tu allan i Gymru’ ond sydd â’u prosesau penderfynu wedi’u hymwreiddio’n gadarn mewn cymunedau. Mae’r dull gweithredu hwn yn cynnwys gwasanaethau a chynnyrch sylfaenol y mae pobl yn dibynnu arnynt sy’n gweddu’n dda â’r sectorau y mae cyfranogwyr yr AIF yn dueddol o weithio gyda nhw, gan gynnwys gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr.
- b. Mewn cysylltiad â’r Economi Sylfaenol, mae rhai mudiadau a gyllidwyd gan yr AIF yn dangos sut allai model weithio i gynorthwyo busnesau bach lleol i dyfu a chyflogi staff newydd: y gyfrinach yw helpu pobl a allai wynebu heriau fel arall i gael gafael ar waith, ac ar yr un pryd, helpu busnesau i weld cyfleoedd i dyfu ac i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a chynnig swyddi i bobl o’r fath.
- c. Meithrin cysylltiadau cryfach â chyflogwyr mwy o faint ar lefel raglen: gall hyn hefyd weithio i oresgyn y stigma sydd, yn anffodus, yn gallu bod yn gysylltiedig â phobl â heriau neu gyflyrau penodol a allai fel arall beri i gyflogwyr fod yn gyndyn i’w cynnwys.
- ch. Y symudiad i ddigidol: mae mwy o weithio o bell yn cynnig cyfleoedd i gynyddu nifer y swyddi (a’r cyfleoedd gwirfoddoli gan ystyried bod ffurfiau newydd o wirfoddoli rhithwir yn dod i’r amlwg) i’r rheini mewn cymunedau mwy pellennig, neu â heriau symudedd, neu’r rheini â rhesymau eraill dros fabwysiadu ymgysylltu digidol, cyhyd â bod pobl wedi’u paratoi i fanteisio ar hyn.
- d. Gall symud i weithio’n ddigidol hefyd arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau lleol wrth i fwy o bobl weithio o gartref, o leiaf am ran o’r amser.

Meithrin y Gymraeg

4.8. Gwnaeth yr elfen hon o werthusiad yr AIF edrych ar ‘beth sy’n gweithio’ wrth geisio hybu pobl i ddefnyddio’r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun rhaglenni cyflogadwyedd, lles a llesiant ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu’r defnydd bob dydd o’r Gymraeg erbyn 2050, a Chynllun Strategol 2018-2021 Comisiynydd y Gymraeg. Dyma’r heriau i hyn:

- a. Mae cyfran fechan o gyfranogwyr yr AIF yn dewis defnyddio’r Gymraeg yn ffurfiol fel iaith gyntaf, ond y tu allan i ymgysylltiad penodol sy’n canolbwyntio ar y Gymraeg, nid yw’r cyfranogwyr fel arfer yn lleisio unrhyw fater sy’n ymwneud â dewis neu ddefnyddio’r iaith.
- b. Mae Cymraeg anffurfiol yn cael ei defnyddio’n llawer amlach na Chymraeg ffurfiol mewn dogfennau a phrosesau swyddogol, sy’n

adlewyrchu profiadau a gwaith ymchwil ehangach, a her gyffredin yng Nghymru.

- c. Gan ystyried y niferoedd bychain o gyfranogwyr sydd eisiau siarad yn Gymraeg, a grwpiau cymysg, derbynnir Saesneg fel yr iaith arferol. Fodd bynnag, nododd y rheini a dderbyniodd grantiau o ardaloedd lle siaradwyd llawer o Gymraeg fod y Gymraeg yn bwysig gan ystyried ei bod yn cael ei defnyddio'n aml gan y mudiad ac fel iaith gymunedol, a bod ei hangen hefyd i gael gafael ar rai cyfleoedd cyflogaeth. Ynghyd â hyn, mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cysurus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg. Mae hyn yn bwysig ar gyfer gwasanaethau sy'n cynorthwyo cyfranogwyr sy'n agored i niwed.

4.9. Mae CGGC yn mynd ati'n weithredol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac mae wedi cymryd camau i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod siaradwyr Cymraeg CGGC ar gael ar gyfer yr AIF: rhywbeth a gefnogwyd yn gryf yn ein gwaith ymchwil. Ynghyd â hyn, caiff y rôl ehangach y mae CGGC wedi'i chwarae ers cyflwyno safonau'r Gymraeg yn 2016 ei chydnabod gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn bwysig, oherwydd os credir nad oes llawer o alw am wasanaethau Cymraeg a'r defnydd ohonynt, gellir rhwystro buddsoddiad i'w datblygu.

4.10. Mae amharodrwydd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg cyfredol yn seiliedig ar rwystrau strwythurol (h.y. prinder dewis neu allu i gyfathrebu yn Gymraeg); a rhwystrau ymddygiadol, gan gynnwys diffyg hyder yn ansawdd y gwasanaethau Cymraeg, ofn camddeall pethau wrth drafod yn Gymraeg a phryder bod Cymraeg yn 'rhy ffurfiol' neu'n rhy 'dechnegol'.

4.11. **Gwersi / Beth sy'n gweithio:** Efallai y bydd modd cyflawni targedau hirdymor ac uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn rhannol fesul tipyn, er enghraifft, drwy'r system addysg. Ond mae her ledled Cymru. Awgryma targed 2050 bod angen symudiad diwylliannol yn ogystal â symudiad ymarferol, gyda defnydd ehangach a mwy rhagweithiol o'r Gymraeg yn ddiodyfyn a Saesneg fel yr ail opsiwn i syrthio'n ôl arno. Ar hyn o bryd, Saesneg sy'n fwy tueddol o gael ei siarad yn ddiodyfyn.

4.12. Mae nifer o ffactorau sy'n llesteirio'r gefnogaeth dros hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddylunio a chyflwyno rhaglenni. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- a. **Diwylliant y mudiad:** Bydd mudiadau sy'n rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg gyda digon o siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfa well i gefnogi ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol a ffurfiol. Yn ôl pob golwg, mae cael siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd yn annog mwy o unigolion a mudiadau i redeg eu busnesau yn Gymraeg.
- b. Dylai **prosesau cynllunio** asesu ble y mae angen sgiliau Cymraeg, er enghraifft, gallent gynnwys mudiadau Cymraeg i'w cynorthwyo, e.e.

Mentrau Iaith Cymru. Dylai'r holl swyddogaethau penodol o fewn y gwaith o weinyddu rhaglenni gynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl.

- c. **Annog a mabwysiadu enghreifftiau o arferion da**, er enghraifft, cynlluniau fel Cynnig Cymraeg'.
- ch. **Cynorthwyo staff** i fagu hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg, a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.
- d. **Monitro dewisiadau iaith defnyddwyr gwasanaethau** drwy gydol taith y defnyddiwr er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob rhan o'r daith.
- dd. **Defnyddio Cymraeg ffurfiol mewn modd syml ac eglur**: dylai hyn gynnwys sicrhau gallu'r mudiad i adolygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau, gwefannau ac ati er mwyn lleddfu pryderon pobl sy'n credu bod y Gymraeg yn 'rhy dechnegol': er enghraifft, pan gaiff dogfennau eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.
- e. **Defnyddio cymhorthion TG**: Mae pandemig COVID 19 wedi sbarduno ymarferion gweithio newydd ar-lein, ac mae'n debyg y bydd rhai o'r rhain yn parhau wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae potensial i ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau Cymraeg drwy ddefnyddio Apiau fel 'Vocab' sy'n defnyddio geiriadur a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor i helpu gwefannau i fabwysiadu Cymraeg sy'n fwy syml a hawdd ei darllen.

Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI)

4.13. Gwnaeth Cam 3 gynnwys adolygiad o ddefnyddio'r SROI fel methodoleg ar gyfer mentrau cyflogadwyedd, a sut mae wedi'i ddefnyddio. Dull asesu effaith yw'r SROI i fesur gwerth economaidd ymyriadau a defnyddio 'cysyniad ehangach o werth' y tu hwnt i enillion ariannol i asesu costau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

4.14. Mae'r SROI wedi'i ddefnyddio'n bennaf mewn mentrau cyflogadwyedd y DU i ganolbwyntio ar y buddion i'r holl randdeiliaid gyda gwerthoedd penodedig ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau ond wedi'u cyflwyno fel cymhareb, e.e. buddsoddi £1 – cynhyrchu £5. Mae hon yn fethodoleg gymharol ifanc, ond mae ymarferwyr y DU wedi diffinio dull systemig sy'n nodi mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau, yn defnyddio system 'cadw cydbwysedd' i safoni'r asesiad ac yna'n pennu gwerthoedd ariannol i ganlyniadau sy'n aml yn defnyddio mesurau procsi ariannol angenrheidiol.

4.15. **Buddion a Phroblemau sy'n dod i'r amlwg**: Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n briodol, gellir crynhoi'r buddion yn gyffredinol fel asesu a hysbysu:

- a. Datblygu a mireinio polisiâu a thargedu adnoddau gan ystyried y rhanddeiliaid wrth ddylunio ymyriadau polisi cymdeithasol.
- b. Asesu'r 'pellter a deithiwyd' (newidiadau y gellir eu gweld) hyd yn oed os nad yw'r 'holl' gyrchfannau wedi'u cyrraedd eto: mae hyn yn bwysig o ran y rhai anoddaf i'w cyrraedd sydd â'r pellter mwyaf i deithio ac sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

4.16. Mae'r problemau yn cynnwys:

- a. Yr adnoddau sydd eu hangen, yr heriau o ran gosod gwerth ariannol ar rai canlyniadau cymdeithasol a gwrthrychedd wrth ddefnyddio procsis pan nad yw mesuriad uniongyrchol yn bosibl.
- b. Yr angen am ddata hygyrch o ansawdd da i'w briodoli i raglen benodol mewn amgylchedd polisi a rhaglen cymhleth, gan gynnwys data hydredol sy'n aml ar goll, a data i asesu'r pethau gwrthffeithiol.

4.17. **Canlyniadau:** mae llawer o asesiadau SROI cyflogadwyedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau cyflogadwyedd 'caled' sydd wedi'u cyflawni (e.e. cael a chadw swydd o ansawdd, ennill incwm a sgiliau uniongyrchol sy'n benodol i waith). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf hefyd yn cydnabod sgiliau gweithle ehangach sy'n cynnwys sgiliau trefnu, sgiliau gwasanaethau cwsmeriaid a sgiliau TG a chyfrifiadurol. Hefyd, mae'r holl asesiadau cyflogadwyedd SROI a adolygwyd yn amlygu buddion meddal gan gynnwys llesiant personol a chymdeithasol, mwy o hunan-barch ac annibyniaeth, perthynas well â theulu, ffrindiau a chymunedau. Mae'r asesiadau hefyd yn cynnwys dechrau gwirfoddoli a mynd i addysg bellach a/neu wneud hyfforddiant fel canlyniadau.

4.18. **Prisio Canlyniadau:** serch goddrycholdeb, mae gan asesiadau SROI y DU bethau yn gyffredin, a chanfu'r adolygiad fod ymyriadau cyflogadwyedd sy'n gweithio gyda'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn tueddu i gynhyrchu mwy o werth ar gyfartaledd o ran arbedion i'r wlad.

UKRCS
Mehefin 2021